# Y Pwyllgor Cyllid

## FIN(3) 16-08 (p1) Ymateb gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Dyddiad: Dydd Iau 6 Tachwedd 2008**
**Amser: 1:30pm - 3:10pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

**Ymchwiliad Y Pwyllgor Cyllid I Bartneriaethau Cyhoeddus- Preifat**

## Ymateb Ysgrifenedig i'r Cyfarfod Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2008 gan Andrew y Gweinidog dros Gyllid a Gwasanaeth Cyhoeddus

### Trosolwg

Rwyf i'n croesawu Adroddiad y Pwyllgor Cyllid Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat a chyfraniad hwn at y drafodaeth ac mae'n dda gennyf ymateb i'r argymhellion.

Mae'r Adroddiad yn cyflwyno golwg addysgiadol a chytbwys ar Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat (PPP) ac rwyf i'n edrych ymlaen at weld canlyniad ail ran Ymchwiliad y Pwyllgor i'r mathau o Fodelau PPP sydd yn bodoli.

Cynhwysa Cymru'n Un ymrwymiad i ddatblygu pob cyfle i gael mynediad at gyllid cyfalaf mewn modd sy'n gyson â gwasanaeth cyhoeddus atebol sydd â'r dinesydd yn ganolog iddo. Rwyf i'n awyddus i weithio mewn partneriaeth â'r sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn symud yr ymrwymiad hwn yn ei flaen.

Mae nifer o feysydd lle mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y gallai Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat (PPP) fod â'r potensial i chwarae rhan bwysig i helpu i gyflenwi agenda Cymru'n Un. Mae nifer o enghreifftiau da o gynlluniau PPP posibl yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ac mae'r rhain yn ymwneud â meysydd rheoli gwastraff, seilwaith trafnidiaeth ac eiddo.

Mae'r crebachu yn yr economi byd-eang yn amlwg yn cael effaith ddifrifol ar y marchnadoedd arian. Mae'r union oblygiadau ar gyfer argaeledd cyllid preifat yn dal i weithio eu ffordd drwy'r marchnadoedd. Fodd bynnag, mae'r trafodaethau yr wyf i wedi'u cynnal â'r gymuned fuddsoddi wedi dangos bod cyfleoedd da yn dal i fodoli ar gyfer symud prosiectau cryf yn eu blaen gyda'r sector breifat.

Rwyf i'n bwriadu sefydlu Uned PPP o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru i ecsbloetio'r cyfleoedd PPP a fydd yn codi o ganlyniad i'r newidiadau yn y marchnadoedd arian, a byddaf yn darparu mwy o fanylion am hyn yn fy ymateb i'r argymhellion penodol.

O ran Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru, mae Cymru'n Un yn glir fod Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu yn erbyn defnyddio unrhyw brosiectau Menter Cyllid Preifat (PFI) newydd yn ystod y trydydd tymor. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i gadw'r GIG dan berchnogaeth, cyllid a rheolaeth gyhoeddus.

### Gweithgaredd cyfredol

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu cysylltiadau cryf â chyrff allanol dylanwadol sy'n gallu cynghori ar y dulliau gorau o gael mynediad at ffynonellau cyllid allanol. Yn benodol, rwyf i wedi cynnal cyfarfodydd ag ystod o gynrychiolwyr o'r gymuned buddsoddi ariannol i drafod datblygiadau newydd yn y marchnadoedd buddsoddi ac adeiladu ymwybyddiaeth o gyfleoedd buddsoddi yng Nghymru.

Mae penodi'r Panel Cynghori ar Fuddsoddi Cyfalaf Strategol - dan gadeiryddiaeth Dr Tim Stone o KPMG - yn gam arwyddocaol ymlaen yn y maes hwn. Rwyf i'n falch o fod wedi gallu penodi Panel Cynghori o'r fath ansawdd uchel ynghyd â Chadeirydd mor deilwng. Bydd y Panel yn cynghori Llywodraeth y Cynulliad ar gynllunio, datblygu, cyllido a chyflenwi prosiectau sydd o bwysigrwydd strategol trawsbynciol. Mae gan rai o aelodau'r Panel sgiliau penodol ar gyfer edrych ar wahanol ddulliau o gyllido a chaffael prosiectau cyfalaf, ac mae ganddynt arbenigedd a phrofiad sylweddol wrth weithredu modelau PFI a PPP. Mae'r Panel hefyd ar gael i ddarparu cyngor ar raglenni a phrosiectau eraill, ac rwyf i'n ddiweddar wedi cytuno y dylai aelod o'r Panel gyfrannu ar Fwrdd Prosiect Strategaeth Gwastraff Llywodraeth y Cynulliad.

Fel y nodais yn fy sylwadau agoriadol, mae Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn gweithio gyda phartneriaid sector gyhoeddus eraill i ystyried y potensial ar gyfer partneriaethau strategol yn y sector breifat. Ceir rhai enghreifftiau posibl da ym meysydd rheoli gwastraff (e.e. safleoedd treuliant anaerobig ar gyfer gwastraff bwyd), seilwaith trafnidiaeth (e.e. cyllido ffyrdd newydd neu welliannau) ac adeiladau (e.e ysgolion a thai fforddiadwy).

Mae llawer o arloesi i'w weld ym myd PPPau ar hyn o bryd, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd rhan weithredol ym mhrosesau meddwl y DU a thraws-Ewrop ar ymagweddau newydd. Er enghraifft rydym wedi bod yn gweithio'n agos â Banc Buddsoddi Ewrop (EIB) ac ystod o sefydliadau eraill mewn perthynas â menter JESSICA, sydd wedi'i hanelu at sbarduno cyllid preifat i adfywio ardaloedd trefol. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn un o aelodau sefydlu Canolfan Arbenigedd PPP Ewrop (EPEC), sydd yn fenter ar y cyd rhwng yr EIB, y Comisiwn Ewropeaidd ac Aelod-Wladwriaethau. Pwrpas y EPEC yw rhannu arfer gorau a chefnogi cyrff sy'n aelodau wrth

ddatblygu PPPau. Bydd cyfran o waith EPEC yn canolbwyntio ar gyfleoedd PPP o fewn y seilwaith trafnidiaeth, a byddaf yn sicrhau fod Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae rhan weithredol i adnabod cyfleoedd yn y maes pwysig hwn.

Mae gan Llywodraeth y Cynulliad enw da am ymgymryd â rhai trefniadau partneriaeth arloesol. Enghraifft ddiweddar dda o hyn yn yw Partneriaeth Strategol Buddsoddi Cymru (WISP), sy'n cyflenwi gofod swyddfa newydd sylweddol o ansawdd uchel - gan helpu i ddenu ac annog creu swyddi â gwerth uchel - heb fod angen buddsoddiad o flaen llaw gan Lywodraeth y Cynulliad.

### Casgliad

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn archwilio'n rhagweithiol y cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â'r sectorau preifat a gwirfoddol, a thrwy hyn sbarduno buddsoddi preifat lle bo'n briodol i gynorthwyo â chyflenwi Cymru'n Un.

Mae adborth cadarnhaol yn awgrymu fod y gymuned buddsoddi yn gynyddol ymwybodol o'r potensial yng Nghymru.

O ganlyniad, rwyf i'n teimlo fod cyfleoedd da yn bodoli i symud yr agenda hwn yn ei flaen.

Rwyf i'n bwriadu creu model PPP Both ac Adenydd o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cydlynu gweithgareddau ac annog cyd-ymdrechu ar draws Cymru. Bydd hyn yn ategu'r gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru a bydd yn ychwanegu gwerth drwy ddarparu cyfeiriad ac arweiniad clir yn y maes strategol pwysig hwn. Rwyf i'n disgwyl y bydd aliniad clos rhwng y Both PPP newydd a'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol presennol.

Mae fy ymateb i argymhellion yr Adroddiad wedi'u gosod isod.

### 1. Argymhelliad:

Mater allweddol a ddaeth i'r amlwg yn rheolaidd yn ystod yr adolygiad oedd yr angen i ddatblygu sgiliau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Er bod cydnabyddiaeth eang fod y sector preifat, ar hyn o bryd, yn aml yn fwy llwyddiannus wrth gwblhau prosiectau yn brydlon ac o fewn eu cyllideb, roedd cred gyffredinol y dylai bod y sector cyhoeddus yn gallu gwneud cystal gyda'r cyfleoedd a'r sgiliau i wneud hynny. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid mynd i'r afael â'r mater hwn ac mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ddatblygu cynigion ar gyfer datblygu a chryfhau'r sgiliau hyn yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol.

### Ymateb:

Derbyniwyd.

Rwyf i'n cydnabod fod angen cwblhau set o weithgareddau cymhleth ac aml-weddog dros gyfnod hir o amser er mwyn datblygu a chyflenwi PPPau. Nid oes model safonol yn bod ar gyfer ymgymryd â'r gweithgareddau hyn gan fod pob PPP yn wahanol.

Rwyf i'n cytuno ag argymhelliad y Pwyllgor fod angen datblygu a chryfhau sgiliau'r sector gyhoeddus yng Nghymru o ran datblygu a chyflenwi PPPau.

Mae rhywfaint o wasanaethau cymorth ansawdd uchel eisoes ar gael i helpu'r sector gyhoeddus ddatblygu PPPau yng Nghymru.

Un enghraifft yw Partnerships UK (PUK), sy'n gweithio gyda nifer o Adrannau'r Llywodraeth a hefyd gyda rhai awdurdodau lleol i ddatblygu cynigion PPP ym meysydd rheoli gwastraff, datblygu polisi a hyfforddi staff.

Enghraifft arall yw 4Ps (Rhaglen Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat), sy'n arbenigo mewn caffael llywodraeth leol ac a sefydlwyd ym 1996 gan gymdeithasau awdurdodau lleol Cymru a Lloegr. Mae 4Ps ar gael i ddarparu ystod lawn o gyngor arbenigol a gwasanaethau cymorth i awdurdodau lleol yng Nghymru yn yr un modd ag y gwna yn Lloegr.

Yn ddiweddar cyfarfu fy swyddogion â chynrychiolwyr PUK a 4Ps ac mae'r ddau gorff yn awyddus iawn i gryfhau darpariaeth gwasanaethau cymorth yng Nghymru.

O fewn Llywodraeth y Cynulliad, mae Gwerth Cymru yn tynnu ar y sector gyhoeddus a phreifat i adnabod cyfleoedd ar gyfer rhannu sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth. Mae Gwerth Cymru yn gweithio'n agos â Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OGC) a 4Ps i gynnig cyngor a chymorth parhaus i brosiectau PFI gweithredol. Mae hefyd yn datblygu proses Adolygu Porth OGC o brosiectau cyfalaf ac yn hyrwyddo'r datblygiadau diweddaraf mewn arferion caffael gorau.

Ceir meysydd arbenigedd PFI a PPP eraill mewn rhai Adrannau o  Lywodraeth y Cynulliad, er enghraifft Adran yr Economi a Thrafnidiaeth sydd â hanes da o weithredu cytundebau partneriaeth yn y sectorau eiddo a thrafnidiaeth.

Gyda phenodi'r Panel Cynghori ar Fuddsoddi Cyfalaf Strategol cyflwynwyd dimensiwn newydd i ymagwedd Llywodraeth y Cynulliad at ddatblygu ei rhaglen cyfalaf. Mae'r Panel yn gallu darparu cyngor arbenigol ar reolaeth oes gyfan y prosiect a'r rhaglen, o'r dechrau hyd at y cam gweithredu. Yn ystod y ddau fis nesaf, bydd y Panel yn cyfarfod ag Adrannau Llywodraeth y Cynulliad er mwyn deall y prosesau cyfredol ar gyfer cynllunio a datblygu rhaglenni buddsoddi strategol.

Mae angen cydlynu'r holl fecanweithiau cefnogol yr wyf i wedi'u disgrifio, ac rwyf i'n credu fod hyn yn gyfle i ddod â'r rhain ynghyd i greu cynnig cydlynol lle mae'r cyfanwaith yn fwy na chyfanswm y cydrannau.

Felly fy mwriad yw creu Uned PPP o fewn Llywodraeth y Cynulliad.

Bydd yr Uned yn cynnwys nifer fach o weithwyr proffesiynol arbenigol sydd â sgiliau uchel a hanes llwyddiannus o ddatblygu a gweithredu PPPau. Bydd Gwerth Cymru hefyd yn rhan bwysig o'r Uned oherwydd bydd yn cyflenwi cymorth arbenigol ar gaffael contractau a gwasanaethau. Bydd yr arbenigedd sydd eisoes yn bodoli yn rhai o adrannau Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cael ei ddefnyddio i atgyfnerthu gallu'r Uned.

Pwrpas yr Uned fydd gweithio mewn ffordd drawsbynciol i helpu'r sectorau cyhoeddus a phreifat i adnabod, hyrwyddo a chydlynu'r gwaith o gyflenwi cyfleoedd PPP. Bydd yr Uned hefyd yn arwain wrth gyflenwi cyngor ar agweddau cyfreithiol o sefydlu trefniadau partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys materion yn ymwneud â throsglwyddo risg.

Cyrff sector gyhoeddus, cwmnïau sector breifat a'r darparwyr gwasanaethau cymorth PPP cyfredol (e.e. PUK, a 4Ps) fydd yr Adenydd.

Ar y cam hwn, amlinelliad yw fy nghynnig gan fy mod yn awyddus i glywed barn y sector gyhoeddus a'r sector breifat cyn diffinio rolau a chyfrifoldebau yn fwy manwl. Fodd bynnag rwyf i'n benderfynol o greu Uned sy'n ychwanegu gwerth, yn symud yn gyflym ac yn creu synergedd. Byddaf yn sicrhau y bydd yn osgoi dyblygu a dynwared gweithgareddau sydd eisoes yn gweithio'n dda. Bydd yr Uned yn gweithio ar gyflymder fydd yn manteisio ar gyfleoedd sy'n ymddangos ac sydd ag arwyddocâd strategol, ac yn cryfhau gallu Llywodraeth y Cynulliad i gyflenwi cynlluniau PPP ar draws Cymru.

### 2. Argymhelliad:

Un casgliad pwysig oedd y diffyg sgiliau cyffredinol mewn perthynas â ffurfio, negodi a rheoli partneriaethau â'r sector preifat. Mae angen datblygu'r sgiliau hyn yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefydlu corff neu uned ganolog i hybu a chefnogi prosiectau partneriaeth â'r sector preifat.

### Ymateb:

Derbyniwyd.

Fel yr wyf i eisoes wedi nodi, rwyf i'n bwriadu sefydlu Uned PPP i hybu'r gwaith o gydlynu a chydymdrechu ar draws Cymru.

Bydd y model hwn yn dangos fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu arwain drwy helpu i ecsbloetio mentrau trawsbynciol sy'n cynnwys partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Bydd yr Uned yn datblygu cyfleoedd ar draws Cymru gyfan ac yn rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau'r Cynllun Gofodol.

### 3. Argymhelliad:

Rhan allweddol o swyddogaeth yr uned fydd sicrhau bod yr arbenigedd a ddatblygir fel rhan o un prosiect yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo a llywio prosiectau dilynol. Felly, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r uned ganolog chwarae rôl arweiniol, gyda rheolwyr lleol, wrth ddatblygu manylebau prosiect, negodi cytundebau â'r partner sector preifat a monitro a rheoli perfformiad mewn perthynas â'r cytundeb.

### Ymateb:

Derbyniwyd.

Fel yr wyf i eisoes wedi nodi, rwyf i'n bwriadu sefydlu Uned PPP i hybu'r gwaith o gydlynu a chydymdrechu ar draws Cymru.

Ar y cam hwn, nid wyf i mewn sefyllfa i ddiffinio'n union ei rolau a'i gyfrifoldebau gan fod angen i mi wrando ar farn y rhanddeiliaid allweddol yn gyntaf.

Fodd bynnag, gallaf sicrhau'r Pwyllgor Cyllid y bydd yr Uned PPP yn arwain yn rhagweithiol wrth symud cyfleoedd PPP strategol bwysig yn eu blaen. Bydd yn dal i fod yn ofynnol datblygu rhai cynlluniau PPP ar sail leol heb fod angen arweiniad uniongyrchol o'r canol, ac yn yr amgylchiadau hynny, bydd yr Uned ar gael i gyflenwi rôl cynghori a chymorth.

Mae pob cyfle PPP yn wahanol, a byddaf yn sicrhau fod yr Uned yn ddigon hyblyg i ddatblygu cyfleoedd i secondio, rhannu sgiliau a gweithio gyda phartneriaid ar sail gyd-destunol.

### 4. Argymhelliad:

Byddai o fudd mawr i uned o'r fath pe bai modd gosod hyn o fewn fframwaith tymor hwy a fyddai'n rhoi persbectif clir y gall y sector cyhoeddus a phreifat gynllunio oddi mewn iddo. Felly, mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyhoeddi blaengynlluniau ar gyfer ei rhaglen gyfalaf/seilwaith gan gynnwys nodi'r cyllid yr oedd disgwyl iddo fod ar gael. Byddai'r gwaith hwn yn cyd-fynd â gwaith y Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth y Cynulliad. Byddai hefyd yn sicrhau bod rhaglen gyfalaf Cymru'n cael ei datblygu fel cyfanwaith cydlynol drwy ddiwallu anghenion Cymru gyda'r gwahanol adnoddau sydd ar gael.

### Ymateb:

Derbyniwyd.

Rydym yn gosod gorwel cyllideb tair blynedd o fewn Llywodraeth y Cynulliad sy'n darparu peth sicrwydd ar gyfer cyllido prosiectau

cyfalaf. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfnod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CSR) cyfredol. Y gyllideb cyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf yw £4.8bn.

Dyrannwyd £400m i'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol dros dair blynedd, ac mae rhai o'r prosiectau posibl sydd wedi'u datblygu'n dda yn mynd drwy'r broses o arfarnu'r achos busnes. Mae cyllid wedi'i ymrwymo i Fwrdd Rhaglen Parodrwydd am Ffliw Cymru Gyfan dros y tair blynedd nesaf (£66.3m), sy'n dangos manteision egluro yn gynnar y cyllid sydd ar gael.

Cychwyn yn unig yw hyn a thros amser, rwyf i'n rhagweld y bydd y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn cymryd golwg fydd hyd yn oed yn fwy tymor hir o'r gorwel cyllido cyfalaf. Bydd y Panel Cynghori ar Fuddsoddi Cyfalaf Strategol yn cyfarfod ag Adrannau Llywodraeth y Cynulliad i ddeall amrywiol ymagweddau at gynllunio buddsoddi tymor hir, a bydd y Panel yn rhoi adborth a chyngor i mi a gaiff ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y Cynllun Buddsoddi Cyfalaf Strategol wrth edrych ymlaen, ac ar ddyrannu adnoddau cyfalaf yn y dyfodol.

Agwedd bwysig arall o orwelion cyllido tymor hir yw gallu Llywodraeth y Cynulliad i gwrdd â'r costau refeniw ôl-ddilynol yn sgil gweithredu prosiectau cyfalaf. Drwy'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol, rwyf i'n sicrhau y bydd yr holl benderfyniadau cyllido yn amodol ar ddeall costau oes prosiectau cyfalaf â'r sicrwydd o allu cwrdd â'r costau hynny. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae angen i Lywodraeth y Cynulliad reoli ei chyllideb refeniw yn ofalus yn unol â'r setliad CSR tyn.

### 5. Argymhelliad:

Mae'r Pwyllgor wedi nodi dull yr Alban a roddodd ddatganiad clir o'r cychwyn ynghylch a staff fyddai'n cael eu trosglwyddo i sefydliad arall fel rhan o brosiect partneriaeth. Nododd hefyd ddatblygiad 'concordat' fel fframwaith ehangach, cytûn sy'n cynnwys telerau ac amodau sy'n gymwys i staff newydd a staff sydd wedi trosglwyddo. Mae'r pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar fyrder, weithio gyda'r undebau llafur a sefydliadau'r cyflogwyr i ddatblygu concordat tebyg ar gyfer Cymru. Gallai hon fod y dasg gyntaf i'r Uned Ganolog newydd. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn argymell na ddylai'r Llywodraeth oedi cyn datblygu'r concordat os bydd oedi cyn sefydlu'r Uned Ganolog.

### Ymateb:

Derbyniwyd.

Rwyf i'n cydnabod fod cydberthynas gadarnhaol rhwng gwasanaethau o ansawdd uchel ac arferion cyflogi da.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod hefyd fod angen i warchod hawliau gweithwyr a hybu amodau gweithio rhagorol. Am y rhesymau hynny y mae Llywodraeth y Cynulliad mor ymroddedig ynghylch datblygu Partneriaeth Gymdeithasol gynaliadwy yng Nghymru.

Gallaf gadarnhau fy mwriad i weithio gydag Undebau Llafur a Sefydliadau'r Cyflogwyr i ddatblygu fframwaith fydd yn gosod dealltwriaeth glir o sut y dylai PPPau ymdrin â thelerau ag amodau sy'n gymwys i staff newydd a staff sydd wedi trosglwyddo. Mae hyn yn llywodraethu da a bydd yn darparu cyd-destun ystyrlon ar gyfer partneriaeth wirioneddol rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Yn y lle cyntaf, fy mwriad yw gwrando ar farn Undebau Llafur, Sefydliadau'r Cyflogwyr, darparwyr PPP cyfredol a Llywodraeth yr Alban er mwyn deall pa wersi y gellir eu dysgu o brofiad diweddar. Rwyf i hefyd yn ymwybodol o'r fframwaith sy'n bodoli o fewn Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon - Towards 2016: Ten Year Social Partnership Agreement - ac rwyf yn bwriadu dysgu o hwn hefyd.

Rwyf i'n Cadeirio Fforwm Gweithlu Cyhoeddus Cymru Llywodraeth y Cynulliad, a byddaf yn ceisio barn aelodau mewn perthynas â'r argymhelliad penodol hwn dros y misoedd nesaf.

Fel y nodais yn gynt, rydym yn byw mewn cyfnod ariannol heriol, nas gwelwyd ei debyg ers cenhedlaeth o leiaf. Fodd bynnag yn aml mae heriau yn creu cyfleoedd, ac yn amlwg rydym yn bendant bod Cymru yn barod am fusnes o hyd ac yn chwilio am ffyrdd y gallwn weithio gyda'r sector breifat i uchafu'r buddion i ddinasyddion Cymru.